# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD LLUN, 14 MEDI 2015

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorwyr**:** Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, W. Tudor Owen, Angela Russell, Ann Williams a Elfed Williams

**SWYDDOGION:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones-Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Llywarch Bowen Jones, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd a Peter Read.

Mynegwyd diolch i'r Cynghorydd Eddie Dogan am ei wasanaeth i'r Pwyllgor Trwyddedu dros y blynyddoedd - nodwyd bod y Cynghorydd yn sefyll i lawr fel Cynghorydd oherwydd ei iechyd.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 22ain o Fehefin 2015 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 16.07.15.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:55a.m a daeth i ben am 11:00am

__________________________

**CADEIRYDD**